



Digwyddiadau a Gweithgareddau dros Hanner Tymor mis Mai 2019

Dydd Sadwrn 25 Mai 2019

Gŵyl Stryd Wrecsam, Canol y Dref – 9.00am-4.30pm – bydd Gŵyl Stryd boblogaidd Wrecsam yn dychwelyd ar ddydd Sadwrn ac mae digonedd i'w gynnig i bobl o bob oed! Adloniant, gweithgareddau i blant, teithiau treftadaeth o amgylch canol y dref, mynd i ben tŵr yr eglwys, bargeinion arbennig yn y farchnad, a mwy!!

Paddington, Rheilffordd Llangollen – 10.00am-4.30pm – Prisiau ar y wefan – Addas i deuluoedd. Dewch i weld Paddington ar Reilffordd Llangollen. Bydd yr arth fach ddireidus yn ymddangos bob hyn a hyn rhwng 10.30am a 3.30pm... cofiwch eich camera! Paentio wynebau ar Blatfform 1 yng Ngorsaf Llangollen. Bydd y trên yn pwffian yr holl ffordd i Gorwen, a bydd yno sioe hud a lledrith yng Ngharrog, lluniau i'w lliwio a thrên bach. Prynwch docynnau ar-lein drwy fynd i <http://llangollen-railway.co.uk/event/paddington/> neu ffoniwch (01978 860979) i gael rhagor o fanylion.

Dydd Sadwrn Chwarae Blêr Tywysogion a Thywysogesau, Canolfan Adnoddau Cymunedol Acton – 10.30-11.30am – Pris: £6.50 fesul plentyn – brawd neu chwaer £3.50. Dewch i ymuno â ni am rywfaint o chwarae blêr fore Sadwrn. Y mis yma byddwn yn teithio i fyd tywysogion a thywysogesau. Gallwch edrych ymlaen at dybiau a hambyrddau'n llawn gwahanol liwiau a theimladau! Ffoniwch 07809 299400 i gael rhagor o fanylion.

Gweithgareddau Llysnafedd, Techniquet Glyndŵr 11.00am – yr un prisiau mynediad ag arfer. 25 a 26 Mai 2019. Hylifau hynod fydd dan sylw yn y sbloetsh slwtshlyd yma. Dysgwch am nodweddion anhygoel llysnafedd a chael gwybod pam ei fod yn ymddwyn mewn ffyrdd mor rhyfedd. Fe welwch chi llysnafedd y gallwch ei wthio, dyrnu, tywallt, ymestyn a'i sblatio! Ewch i <http://tgg.org.uk/events/event/its-a-chemistry/> i gael rhagor o fanylion.

Lliwio Bicer Dyn Brymbo, Amgueddfa Wrecsam – Cystadleuaeth – Pris: £1.00 am bob tudalen. Mae tudalennau lliwio ar gael o'r dderbynfa gydol y gwyliau hanner tymor. Dydd Sadwrn 25 – 31 Mai. Oedran: 0-3, 4 -7, 7+ - Cyhoeddir yr enillwyr yr wythnos sy'n dechrau ar 10 Mehefin. Mae llwybr hefyd ar gael gydol y gwyliau hanner tymor. Am fwy o wybodaeth ffoniwch: (01978) 297460.

Sesiynau Crefft Elfed, Llyfrgell Wrecsam – 25 Mai tan 3 Mehefin – AM DDIM – addas i blant o BOB oed. Pob math o weithgareddau crefftau gan gynnwys creu baneri bach Elfed a chlustiau Elfed, a gosod y trwnc ar Elfed – yn ogystal â helpa drysor gyda thema Elfed! Nid oes angen cadw lle. Ffoniwch (01978) 292090 i gael rhagor o fanylion.

Diwrnod o Hwyl i'r Teulu, Tafarn Plas Coch – 1.00-5.00pm – ymunwch â ni am ddiwrnod o HWYL i'r teulu oll! Bydd yma baentio wynebau, gemau balwŷns, a digonedd o hwyl creadigol a dawnsio!! Am fwy o wybodaeth ffoniwch: (01978) 261470

Dydd Llun 27 Mai 2019

Diwrnod Hwyl i'r Teulu Home-Start, y Parciau – 11.00am-3.00pm. Dewch i ymuno â ni yn ein diwrnod blynyddol o hwyl i'r teulu, lle bydd digonedd i'w wneud i'r plant a'r oedolion. Bydd yno ffair yn troi, hufen ia a bwyd poeth, castell neidio, stondinau, crefftau i blant, paentio wynebau a thatwŷs disglair, ynghyd ag amrywiaeth o gacennau blasus. Am fwy o wybodaeth ffoniwch: (01978) 366660.



Dydd Mawrth 28 Mai 2019

Cwrs Pêl-droed Pro-Skill, Neuadd Goffa Gresffordd LL12 8ES – Pris: £15 fesul diwrnod i bob chwaraewr (£40 am y tri diwrnod gyda'i gilydd) – addas i blant 4-12 oed. 28, 29 a 30 Mai. Mae'r cwrs yn agored i fechgyn a genethod, p'un a yw'ch plentyn yn dechrau o'r newydd neu'n un o sêr y dyfodol. Mae ein rhaglen yn ffordd wych o gael hwyl, dysgu sgiliau newydd a gwneud ffrindiau newydd mewn amgylchedd diogel. I gael rhagor o wybodaeth a chadw lle ffoniwch 07732 648043 neu ewch i: www.proskillsoccer.co.uk

Gwersyll Tennis y Gwyliau, Canolfan Tennis Wreccsam – Diwrnod Llawn (9am-4pm) am £20 neu Hanner Diwrnod (9am-12pm neu 1pm-4pm) am £9. 28-31 Mai 2019. Ffoniwch (01978) 265260 i gadw lle.

Hyfforddiant Tennis, Parc Acton – 1.00-3.00pm – AM DDIM – Addas ar gyfer plant 6-14 oed. Cyfarfod yn y cyrtiau. Mae'n beth doeth cadw lle ymlaen llaw. Ffoniwch (01978) 763140 neu e-bostiwch countryparks@wrexham.gov.uk i gael rhagor o fanylion.

Creadigaethau Clai, Parc Gwledig y Mwynglawdd – 1.30-3.30pm – Pris: £2.00 y plentyn. Dewch i greu pethau rhyfeddol â chlai wedi'u hysbrydoli gan fyd natur yn ein sesiwn galw heibio creadigol ni. Bydd popeth yn digwydd yn yr awyr agored. Gwisgwch ddillad ac esgidiau addas. Rhaid i bob plentyn fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol bob amser. Am fwy o wybodaeth ffoniwch: (01978) 757524 neu e-bostio: info@groundworknorthwales.org.uk

Paentio Cerrig, Llyfrgell Gwersyllt – 2.00-4.00pm – AM DDIM – Dewch i roi cynnig ar baentio cerrig a chreu eich creadur creigiog eich hun! Addas i blant o bob oed, mae'n rhaid i rai dan 8 oed fod gydag oedolyn. Ffoniwch (01978) 722890 i gael rhagor o fanylion.

Amser Stori Elfed, Llyfrgell Wreccsam – 2-2.30pm – Crëwyd Elfed gan David McKee a'i gyhoeddi am y tro cyntaf gan Andersen Press fel Elmer ym 1989. Ers hynny mae clytwaith eiconig Elfed a'i gymeriad wedi ei wneud yn ffefryn mawr i filiynau o aelwydydd ledled y byd. Mae Elfed yn annog plant i dderbyn gwahaniaethau pobl eraill a bod yn oddefgar a charedig. Edrychwch ymlaen at eich gweld chi yn ystod hanner tymor! Mae croeso i'r plant wisgo eu dillad mwyaf llachar i'n helpu i ddathlu pen-blwydd yr eliffant hoffus hwn. Ffoniwch (01978) 292090 i gael rhagor o fanylion.

Dydd Mercher 29 Mai 2019

Ysgol Bêl-droed Sefydliad Cymunedol y Cae Ras, Canolfan Chwaraeon Prifysgol Glyndŵr – 10.00am – 1.00pm. Pris: £10 y chwaraewr fesul diwrnod (gostyngiad i Ddreigiau Iau) – addas i fechgyn a genethod 5-12 oed. 29 a 30 Mai 2019. Mae'n rhaid archebu ymlaen llaw gan fod lleoedd yn brin. Ffoniwch Matthew Jones ar 07792 788623 neu e-bostio matthew.jones@wrexhamafc.wst.org.uk i gadw'ch lle.

Gwenu gyda'r Gwenyn, Parc Gwledig Tŷ Mawr – 11.00am-4.00pm – Gwenwch wrth fynd ar y llwybr gwenyn a mwynhau gweithgareddau hwyliog eraill. Addas i blant o bob oed. Bydd y gost yn amrywio yn ôl y gwahanol weithgareddau. Am fwy o wybodaeth ffoniwch: (01978) 763140 neu e-bostio: countryparks@wrexham.gov.uk

Paws to Read, Llyfrgell Rhiwabon – 3.30-4.30pm – addas i blant 3-8 oed – AM DDIM. Ymunwch â ni am sesiwn stori rhyngweithiol. Ffoniwch (01978) 822002 i gael rhagor o fanylion.



Dydd Iau 30 Mai 2019

Hyfforddiant Tennis, y Parciau – 1.30-3.30pm – AM DDIM – Addas i blant 6-14 oed. Cyfarfod yn y cyrtiau. Mae'n beth doeth cadw lle ymlaen llaw. Ffoniwch (01978) 763140 i gadw lle neu e-bostio countryparks@wrexham.gov.uk.

Llwybr Trysorau Byd Natur, Parc Gwledig y Mwynglawdd – 1.30-3.30pm – Pris: £2.00 y plentyn. Dewch â'r teulu i fwynhau taith natur hwyliog drwy Barc Gwledig y Mwynglawdd, yn chwilota am gliwiau, sbecian ar fywyd gwyllt a dod o hyd i drysorau byd natur ar eich hynt. Bydd popeth yn digwydd yn yr awyr agored. Gwisgwch ddillad ac esgidiau addas. Rhaid i bob plentyn fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol bob amser. Am fwy o wybodaeth ffoniwch: (01978) 757524 neu e-bostio: info@groundworknorthwales.org.uk

Stori a Chân, Llyfrgell Wrexham – 2.00-2.30pm – Amser stori Elfed yn Gymraeg. Cafodd Elfed ei greu gan David McKee a'i gyhoeddi am y tro cyntaf gan Andersen Press fel Elmer yn 1989. Ers hynny mae clytwaith eiconig Elfed a'i gymeriad wedi ei wneud yn ffefryn mawr i filiynau o aelwydydd ledled y byd. Mae Elfed yn annog plant i dderbyn gwahaniaethau pobl eraill a bod yn oddefgar a charedig. Edrychwch ymlaen at eich gweld chi yn ystod hanner tymor! Mae croeso i'r plant wisgo eu dillad mwyaf llachar i'n helpu i ddathlu pen-blwydd yr elfiant hoffus hwn. Ffoniwch (01978) 292090 i gael rhagor o fanylion.

Sesiynau Crefft i Blant Awtistig, Rascals Retreat – 6.00-8.00pm – digwyddiad i deuluoedd sydd â phlentyn ar y sbectrwm awtistig, boed wedi cael diagnosis neu beidio. NAS Wrexham sydd wedi trefnu'r digwyddiad hwn a byddant yn cyfrannu £5 at y tâl. I gael rhagor o wybodaeth neu i gadw lle, cysylltwch â: wrexham@nas.org.uk

Dydd Gwener 31 Mai 2019

Parti Lllysnafedd, Caffi Celf a Chrefft Rascals Retreat – 2.00-3.00pm Pris: £8 y plentyn. Mae hyn yn cynnwys awr o wneud lllysnafedd gydag Ella o Ellaborates â'i pharti gwyddoniaeth, budd sudd a da-da ar gael yn ogystal â the a choffi i'r oedolion. I gael rhagor o wybodaeth neu i gadw lle, ffoniwch: (01978) 314999.

Sesiwn Nofio i Blant Awtistig, Canolfan Hamdden Plas Madoc – 6.00-8.00pm – digwyddiad i deuluoedd sydd â phlentyn ar y sbectrwm awtistig, boed wedi cael diagnosis neu beidio. NAS Wrexham sydd wedi trefnu'r digwyddiad hwn a byddant yn talu'r pris mynediad. I gael rhagor o wybodaeth neu i gadw lle, cysylltwch â: wrexham@nas.org.uk

Gŵyl Fai Dynamic 2019, Bradbury House – 5.00-9.00pm – Pris: £5.00 y teulu (1-2 oedolyn a'u plant) Hon fydd Garddwest gyntaf Dynamic ar gais ein pobl ifanc, ac mae croeso i unrhyw unigolyn ifanc ag anableded a'u teuluoedd/gweithwyr cymorth neu'u ffrindiau, ac fe fydd hi'n wyl i'w chofio! Mae ychydig o docynnau ar ôl yn swyddfa Dynamic: (01978) 263656



Dydd Sadwrn 1 Mehefin 2019

Penwythnos Marchogion a Thywysogesau, Castell y Waun – 10am-4pm – mae'r digwyddiad am ddim ond codir yr un tâl mynediad ag arfer. Ymunwch â ni am benwythnos o hwyl a sbri yn hel straeon yng Nghastell y Waun. 1 a 2 Mehefin. Dewch i gwrdd â'r Marchog, y Dywysoges, y Digrifwas, y Marchwr a'r dreigiau. Fe gewch chi fwynhau storïau, gemau, gweithgareddau, sioeau pypedau a chymryd rhan yn yr orymdaith yn y prynhawn i gael cyfle i ennill gwobr. Mae pob plentyn mewn gwisg yn cael dod i mewn am ddim! Ffoniwch (01691) 777701 neu anfonwch e-bost i chirkcastle@nationaltrust.org.uk i gael rhagor o fanylion.

Adeiladu Lego Anhygoel, Canolfan Ymwelwyr Basn Trefor – 10.00am-4.00pm – AM DDIM – Bydd y meist'r Lego, Steve Guinness (*'the brick guy'*) yn ymuno â ni yn y ganolfan ymwelwyr i greu model 4+ metr ar raddfa o Draphont Ddŵr Pontcysyllte. Dewch draw i roi cynnig arni, a rhoi help inni adeiladu'r campwaith Lego anhygoel hwn. Am fwy o wybodaeth ffoniwch: (01978) 822912 neu e-bostiwch: TrevorVisitor.Centre@canalrivertrust.org.uk

Gweithgareddau Llysnafedd, Techniquet Glyndŵr – 11.00am-4.30pm – yr un prisiau mynediad ag arfer. 1 a 2 Mehefin 2019. Hylifau hynod fydd dan sylw yn y sbloetsh slwtshlyd yma. Dysgwch am nodweddion anhygoel llysnafedd a chael gwybod pam ei fod yn ymddwyn mewn ffyrdd mor rhyfedd. Fe welwch chi llysnafedd y gallwch ei wthio, dyrnu, tywallt, ymestyn a'i sblatio! Ewch i <http://tqg.org.uk/events/event/its-a-chemistry/> i gael rhagor o fanylion.

Disgo i'r Plant, Tafarn Pla Coch – 1.00-5.00pm – Ymunwch â ni am brynghawn o hwyl a sbri. Byddwn yn cynnal disgo i'r plant. Addas i blant o bob oed. Am fwy o wybodaeth ffoniwch: (01978) 261470



Amserlen Nofio 2019

16 Nofio Am Ddim

NEU IAU?

i bawb sy'n 16 oed ac iau

www.nofio-am-ddim.org.uk

Byd Dŵr – 01978 297300

Queensway – 01978 355826

Nofio am Ddim
Dydd Mawrth – Dydd Gwener 2pm – 3pm
Dydd Sadwrn 3.30pm – 4.30pm

Nofio i'r Teulu (i deulu o 4)
Dydd Sul 9am – 11am

Cyflwyniad i Wersi Nofio
Dydd Mawrth 28 Mai 2019
Owrs 4 diwrnod
4-5 oed 9am – 9.30am 6-7 oed 9.30am – 10am

Gwersi nofio Synhwyraidd i blant efo Awtistaeth
Mae'n rhoi i bob plentyn ddod â rhyant / gwarcheidwad
Dydd Mawrth 28 Mai 2019
Owrs 4 diwrnod
3-6 oed 10am-10.30am 7+ oed 10.30am – 11am

Ffitrwydd i Ferched Iau
Sesiwn ffitrwydd yn y gampfa o dan onuchwyliaeth hyfforddwr
11-15 oed
Dydd Iau 10am – 11am

****Y Byd Dŵr Ar Agor a Dydd Llun gwyl y banc Nofio am Ddim 12pm – 1pm**

Disgrifiadau Sesiwn

Cyflwyniad i Wersi Nofio
I'r rhai nadydynt yn gallu nofio neu ddim mor hyderus â hynny yn y dŵr, yna mae'r sesiwnau hyn yn berffaith i chi. Dewch draw i roi cynnig arni yn y sesiwn ddiogel a hwyliog hon. Ni ddylid bod ar y Rhaglen Dysgu Nofio gan Freedom.

Erbeg Dŵr i Blant Iau
Erbeg dŵr (ffitrwydd yn y dŵr) yw gwneud ymarfer erobeg mewn dŵr, fel mewn pwll nofio. Wedi'i wneud yn bennaf yn fertigol a heb nofio, rydych fel arferat eich canol mewn dŵr dwfn neu ddyfnach, mae'n fath o hyfforddiant gwrthiant. Yn addas ar gyfer pob gallu.

Gwersi Nofio Anabl
Gwersi Anablledd wedi eu cynllunio'n benodol ar gyfer pobl ifanc rhwng 8-16 oed sydd â nam corfforol, synhwyraidd neu ddysgu. Er mwyn ennill hyder yn y dŵr a gwella eu gallu nofio.

Ffoniwch eich Canolfan Hamdden a Gweithgareddau Leol i gael rhagor o fanylion a chadw eich lle.



Amserlen Nofio 2019

Gweithgareddau Nofio Am Ddim i blant sy'n iau nag 16 Hanner Tymor mis Mai



Dydd Sadwrn 25ain Mai 2019 – Dydd Sul 2af Mehefin 2019

Y Waun – 01691 778666

Nofio am Ddim
Dydd Sul 2pm – 3pm

Nofio i'r Teulu (l deulu o 4)
Dydd Iau 11am – 12pm

Cyflwyniad I Wersl Nofio
Dydd Mercher 29 Mai 2019
Gws 3 diwrnod
4–5 oed 9.00am – 9.30am
6–8 oed 9.30am – 10.00am
9+ oed 10am – 10.30am

Erbeg Dŵr Teulu
Dydd Mercher 12.15am – 1pm

Campfa Plant Iau
Sesiwn ffitrwydd yn y gampfa o dan
orchwyliaeth hyfforddwr
11–15 oed
Dydd Mawrth & Dydd Iau 11am – 12pm

Gwyn Evans – 01978 269540

Nofio am Ddim
Dydd Iau 2pm – 3pm
Dydd Sul 10am – 11am

Cyflwyniad I Wersl Nofio
Dydd Mawrth 28 Mai 2019
Gws 4 diwrnod
4–5 oed
9.00am – 9.30am
10.00am – 10.30am
11.15am – 11.45am
6–7 oed
9.30am – 10.00am
10.30am – 11.00am
11.45am – 12.15pm

Erbig Dŵr Plant Iau
Dydd Mercher 2.15pm – 3pm

Campfa Plant Iau
Sesiwn ffitrwydd yn y gampfa o dan
orchwyliaeth hyfforddwr
11–15 oed
Dydd Sul 11am – 12pm

Pffontwch eich Canolfan Hamdden a Gweithgareddau Leol i gael rhagor o fanylion a chadw eich lle.

GWERSYLLT

Fe'u cynhelir yn ystod pob gwyliau ysgol (ac eithrio gwyliau mis Chwefror a'r Nadolig).

Dydd Llun	Parc Pendine	2pm-5pm
Dydd Mawrth	Parc Pendine	2pm-5pm
Dydd Mercher	Caeau Bradley	2pm-5pm
Dydd Iau	Caeau Bradley	2pm-5pm
Dydd Gwener	Caeau Bradley	2pm-5pm

COEDPOETH

Fe'u cynhelir yn ystod pob gwyliau ysgol (ac eithrio gwyliau mis Chwefror a'r Nadolig).

Dydd Mawrth	Cae Adwy	2pm-4pm
Dydd Iau	Cae Adwy	2pm-4pm

OFFA

Fe'u cynhelir yn ystod pob gwyliau ysgol (ac eithrio gwyliau mis Chwefror a'r Nadolig).

Dydd Mawrth	Luke O'Connor House	2pm-4pm
Dydd Mercher	Maes Chwarae Brynycabanau	2pm-4pm
Dydd Iau	Y Parciau	2pm-4pm
Dydd Gwener	Y Parciau	2pm-4pm

RHOS a JOHNSTOWN

Fe'u cynhelir yn ystod pob gwyliau ysgol (ac eithrio gwyliau mis Chwefror a'r Nadolig).

Dydd Llun	Morton Circle (Johnstown)	2pm-4pm
Dydd Mawrth	Morton Circle (Johnstown)	2pm-4pm
Dydd Mercher	Bryn y Brain	2pm-4pm
Dydd Iau	Parc Ponciau	2pm-4pm
Dydd Gwener	Parc Ponciau	2pm-4pm

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Datblygu Chwarae Wrecsam ar (01978) 298361 neu e-bostiwch play@wrexham.gov.uk.

PROSIECTAU GWAITH CHWARAE'R FLWYDDYN GRON 2017 / 2018

PROSIECT CHWARAE AVOW

Hwyluso sesiynau chwarae mewn amrywiol gymunedau. I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amseroedd, dyddiadau a lleoliadau, ffoniwch (01978) 813912.

MAES CHWARAE ANTUR Y FENTER

Ffordd Garner (ger Queensway ym Mharc Caia). I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amseroedd agor, ffoniwch (01978) 355761.

MAES CHWARAE ANTUR DYFFRYN GWENFRO

Y tu ôl i Ysgol Gynradd Gwenfro ym Mharc Caia. I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amseroedd agor, ffoniwch (01978) 264994.

PROSIECT CHWARAE RHOS a JOHNSTOWN

Bydd sesiynau yn cael eu cynnal yn Morton Circle (Johnstown) a Pharc Ponciau bob yn ail. I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amseroedd a dyddiadau, cysylltwch â'r Tîm Datblygu Chwarae ar (01978) 298361.

PROSIECT CHWARAE HIGHTOWN

Bob dydd Llun a dydd Mawrth ym maes chwarae Bryncabanau. I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amseroedd agor, ffoniwch 07845 788018.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Datblygu Chwarae Wrecsam ar (01978) 298361 neu e-bostiwch play@wrexham.gov.uk.

Meddylwch am gofrestru i dderbyn y wybodaeth hon yn awtomatig ar gyfer pob gwyliau ysgol, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam. Ewch i <http://www.wrexham.gov.uk/register> a rhwch eich cyfeiriad e-bost yn y blwch Diweddariadau E-bost. Ar ôl i chi bwyso tanysgrifio, dewiswch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a byddwch yn derbyn gwybodaeth gennym yn syth i'ch mewnflwch.